| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD** |
| **DYDDIAD** | **17 Mehefin 2011** |
| **TEITL** | **Asesiad Cynaliadwy Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (CDLl ar y Cyd)** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Ystyried y canfyddiadau yn Atodiad 1-3 yr adroddiad hwn fel sail i ymgynghori.** |
| **AWDUR** | **Nia Davies, Rheolwr Polisi Cynllunio, Cyngor Gwynedd** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio CDLl ar y Cyd am Asesiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC) CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (CDLl ar y Cyd) ac i roi amlinelliad o gamau nesaf y broses AC.

## 2. Cefndir

2.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gofodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i'w hardaloedd. Mae Cyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd wedi penderfynu paratoi'r CDLl ar y Cyd ar gyfer ardaloedd awdurdodau cynllunio Ynys Môn a Gwynedd.

2.2 Noda'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 hefyd fod yn rhaid cynnal Asesiad Cynaliadwyedd (AC) ac adrodd ar ganfyddiadau'r gwaith hwn drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun. Prif fwriad yr AC yw sicrhau bod polisïau a chynigion y CDLl ar y Cyd yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

2.3 Yn ogystal â'r gofyniad i gwblhau AC o'r CDLl ar y Cyd, dan Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC, sy'n cael ei gweithredu yn y DU dan Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, dylai Cynlluniau Datblygu Lleol hefyd fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Mae AAS yn broses i sicrhau bod yr effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n deillio o gynlluniau a rhaglenni yn cael eu hadnabod, asesu, lliniaru, a'u cyfathrebu i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau ac yna'u monitro. Mae Rheoliadau AAS yn gofyn i faterion amgylcheddol diffiniedig gael eu cynnwys yn y broses asesu, sef: bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd pobl, ffawna, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau deunyddiau, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd.

2.4 Cynghora Llywodraeth Cymru (LlC) fod yn well ymgorffori anghenion y Gyfarwyddeb AAS yn yr Asesiadau Cynaliadwy yng nghyswllt cynlluniau datblygu. Gellir diwallu gofynion statudol y ddau asesiad mewn un broses integredig o Asesu Cynaliadwy. Bydd y cyfuniad o'r AC a'r AAS yn


darparu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer creu polisïau priodol yn y CDLl ar y Cyd drwy gydol y broses o'i baratoi.

2.5 Gofynna'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol i CDLl fod yn gadarn cyn iddo gael ei gyflwyno. Mae Cynllun Datblygu Lleol Cymru (CDLlC) yn adnabod meini prawf a phrofion i fesur pa mor gadarn yw CDLl. Mae'r profion cadernid yn cyfeirio at gynnwys polisïau CDLl, yn ogystal â'r prosesau ar gyfer creu CDLl. Mae nifer o feini prawf wedi'u hadnabod i brofi cadernid y CDLl. Un o'r profion sydd wedi'u hadnabod yw bod y cynllun a'i bolisïau wedi bod yn destun Asesiad Cynaliadwyedd gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol.

2.6 Bydd angen i'r CDLl hefyd fod yn destun asesiadau eraill megis Asesiad Effaith Iechyd, Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Asesiad Effaith Iaith. Bydd canlyniadau'r asesiadau hyn yn gymorth i ateb cwestiynau a ofynnir fel rhan o'r broses AC.

## 3. Y Broses AC a'r Cynllun Datblygu Lleol

3.1 Yn ôl yr arweiniad dylai'r broses AC gychwyn mor fuan â phosib, ac yn ddelfrydol wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Dengys y ffigwr isod sut y mae'r broses AC yn integreiddio â phob cam o'r broses CDLl.



3.2 Mae’r Rheoliadau perthnasol yn adnabod y pum brif gam wrth gynnal AC:

- Cam A – gosod y cyd-destun a’r amcanion, sefydlu'r waelodlin a phenderfynu ar y sgôp;

- Cam B - datblygu a mireinio opsiynau ac asesu effeithiau;

- Cam C – paratoi’r Adroddiad Asesu Cynaliadwyedd;

- Cam D - ymgynghori ar opsiwn gorau'r cynllun datblygu a'r Adroddiad AC; a

- Cam E – monitro effeithiau arwyddocaol gweithredu’r cynllun datblygu.

## 4. Cynnydd Hyd yn Hyn

4.1 Fel y nodir ym mharagraff 3.2 uchod, y prif gam cyntaf o’r broses AC yw gosod y cyd-destun a’r amcanion, sefydlu'r waelodlin a phenderfynu ar y sgôp (Cam A). Mae Cam A yn cynnwys y tasgau a ganlyn:

**Tasg A1:** Adolygu polisïau, cynlluniau a rhaglenni, ac amcanion cynaliadwyedd eraill perthnasol.
**Tasg A2:** Casglu gwaelodlin a gwybodaeth arall
**Tasg A3:** Adnabod materion a phroblemau cynaliadwyedd
**Tasg A4:** Datblygu’r Fframwaith AC ar gyfer asesu’r effeithiau arwyddocaol tebygol fydd yn deillio o’r CDLl; a
**Tasg A5:** Ymgynghori ar y fframwaith AC

4.2 Deilliant allweddol y cam hwn yw cynhyrchu Adroddiad Sgopio. Bwriad cyffredinol yr Adroddiad Sgopio hwn yw creu fframwaith cyffredinol ar gyfer asesu'r CDLl. Mae’r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn y broses o gynhyrchu’r Adroddiad Sgopio ac wedi cwblhau tasgau A1 - A4 fel y dengys ym mharagraff 4.1. Mae atodiadau 1-3 yr adroddiad hwn yn cynnwys y wybodaeth a gasglwyd ar gyfer Tasgau A2-A4 yr Adroddiad Sgopio.

4.3 Mae ymgynghorydd allanol sy’n arbenigo yn y maes wedi’i benodi i wirio’r gwaith drwy gydol y broses yn ogystal â pharatoi’r dogfennau perthnasol ac ymgynghori yn ystod camau priodol gyda grwpiau amgylcheddol ar ran y Cynghorau.

4.4 Unwaith y bydd wedi’i gwblhau, bydd strwythur yr Adroddiad Sgopio fel a ganlyn:

- Crynodeb Heb Fod Yn Dechnegol
- Cyflwyniad/ cefndir y gofyniad AC a'r CDLl
- Dull AC, camau’r AC a sut y bydd yr asesiad yn cael ei gynnal

- Cyflwyniad o'r waelodlin yn seiliedig ar themâu a chynlluniau a materion allweddol rhaglenni: Bioamrywiaeth, Cymunedau, Newid Hinsawdd ac ati.
- Fframwaith AC a'r dangosyddion arfaethedig
- Proses ymgynghori statudol
- Camau nesaf

## 5. Camau Nesaf

5.1 Yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb AAS, mae gofyn i'r Cynghorau ymgynghori â'r tri Chorff Ymgynghori Statudol (CADW, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru) am gyfnod o bum wythnos ar gynnwys yr Adroddiad Sgopio. Awgrymir hefyd fod y Cynghorau yn ymgynghori â budd-ddeiliaid perthnasol eraill yn ogystal â'r cyhoedd.

5.2 Yn unol â'r Cytundeb Cyflawni, bydd Grŵp Tasg Asesu Cynaliadwyedd yn cael ei ffurfio i gynnwys swyddogion proffesiynol sydd â diddordeb ac arbenigedd yn y meysydd perthnasol. Bydd y Grŵp Tasg yn darparu mewnbwn arbenigol i amryw o agweddau'r broses AC gan gychwyn gyda chynnwys yr Adroddiad Sgopio. Ar adegau priodol, bydd cynrychiolwyr o sefydliadau arbenigol yn ymuno â'r Grŵp. Bydd y Grŵp hefyd yn helpu â'r gwaith o asesu effeithiau rhannau perthnasol y CDLl ar y Cyd ar agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Ardal y Cynllun. Bydd canfyddiadau'r Grŵp hwn a'r sylwadau a dderbynnir yn ystod unrhyw gyfnod ymgynghori yn cael eu cyflwyno i'r Panel CDLl ar y Cyd i'w hystyried.

## 6. Argymhellion

6.1 Bod y Pwyllgor CDLl ar y Cyd yn: ystyried ac yn cymeradwyo'r canfyddiadau yn Atodiadau 1-3 yr Adroddiad hwn fel sail i ymgynghori gyda'r Grŵp Tasg Cynaliadwyedd, Cyrff Ymgynghori Statudol, budd-ddeiliaid eraill a'r cyhoedd.